

Rebecca Evans AS  
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

10 Ionawr 2022

Annwyl Rebecca,

**Bil Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu)**

Yn ystod y sesiwn dystiolaeth ar 22 Rhagfyr 2021, ymchwiliodd y Pwyllgor i gostau posibl a all ddeillio o weithredu newidiadau i Ddeddfau Trethi Cymru, gan fod y costau yn y Memorandwm Esboniadol yn anhysbys. Ar 22 Rhagfyr 2021, wrth gyfeirio at gostau gwirioneddol gweithredu newidiadau ar unwaith i gyfraddau a throthwyon Treth Trafodiadau Tir mewn ymateb i newidiadau Llywodraeth y DU i Dreth Tir y Dreth Stamp ym mis Gorffennaf 2020, dywedasoch:

*"That cost very little. I don't have the exact figure in front of me, but I remember at the time the WRA in a meeting were very pleased at how little it cost and how they were able just to absorb it within their normal operating and how they were able to just respond so very quickly and effectively."*

Hoffai'r Pwyllgor ddeall y costau posibl sy'n gysylltiedig â gweithredu unrhyw is-ddeddfwriaeth a fyddai'n deillio o'r Bil, megis diweddarau systemau, ffurflenni, canllawiau a chyfleu unrhyw newidiadau. Fel enghraifft ddiweddar a phendant o weithredu newidiadau treth yn gyflym, byddem yn ddiolchgar am ddadansoddiad o'r costau gwirioneddol sy'n gysylltiedig â gweithredu Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Amrywio Dros Dro Gyfraddau a Bandiau ar gyfer Trafodiadau Eiddo Preswyl) (Cymru) 2020 i'n cynorthwyo yn ein gwaith craffu Cyfnod 1.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.

